

Mrs Karen Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: 3281A2022

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2022

Annwyl Karen

Asesiad Sicrwydd a Risg 2021-22 – Diweddariad ar y sefyllfa ariannol

Yn dilyn ein llythyr diweddar yn rhoi diweddariad ar y cynnydd gydag Asesiad Sicrwydd a Risg 2021-22 fe ddwedom ni y byddem yn rhoi adborth ar rai agweddau penodol pellach ar y gwaith asesu sicrwydd a risg yr ydym wedi ei wneud. Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad ar y cynnydd o ran sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2021-22.

Fe wnaed y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Asesiad Sicrwydd a Risg (ASR) 2021-22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol¹.

¹ Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd fod yn sail i astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adborth hwn yn darparu diweddariad ar adeg benodol mewn amser fel rhan o'r asesiad sicrwydd a risg am y cynnydd gyda threfniadau'r Cyngor yn y maes hwn. Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor yn sefydlog yn ariannol, a helpwyd yn ddiweddar gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ond mae angen iddo ddatblygu cynllun cynaliadwy i fynd i'r afael â phwysau o ran costau a chau ei fwllch o ran cyllid yn y tymor canolig mewn hinsawdd ariannol sy'n fwyfwy heriol

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

- 1 Fe wnaethom adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sefyllfa'r Cyngor o ran ei gronfeydd ariannol wrth gefn, cyflawni arbedion wedi'u cynllunio a'i berfformiad yn erbyn y gyllideb a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn.
- 2 Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022 sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Gellir cael mynediad at yr offeryn trwy ddilyn y ddolen ganlynol – [Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol](#).

Strategaeth ariannol


- 3 Canfu ein gwaith blaenorol, yr adroddwyd arno ym mis Medi 2021 ([Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol](#)) fod y Cyngor yn canolbwyntio ar gyllidebu blynyddol ac nad oedd ganddo Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) wedi'i gyhoeddi. Roedd y cynllun ariannol yn cael ei ddiwygio'n flynyddol i helpu i oleuo'r broses flynyddol i bennu'r gyllideb ac yn nodi amcanestyniadau ariannol tymor canolig y Cyngor. Roedd y Cyngor yn cydnabod bod lle ganddo i gryfhau ei gynllun ariannol tymor canolig a'r cysylltiad rhyngddo a chyflawni ei amcanion corfforaethol.
- 4 Nid oedd cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022-23, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn meintio ei sefyllfa ariannol tymor canolig, gan nodi y byddai'n cymryd ymarfer cynhwysfawr wedi hynny i ddatblygu CATC. Ym mis Hydref 2022,

adroddodd y Cyngor ar y cynnydd yr oedd wedi'i wneud o ran datblygu ei CATC ar gyfer y cyfnod rhwng 2023-2024 a 2027-28 wrth y Cabinet. Mae wedi llunio tybiaethau ynglŷn â phatrymau costau ac incwm yn seiliedig ar 2 senario yr un, y maent i gyd yn arwain at fwloch sylweddol yn y gyllideb ar gyfer y Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r bwloch a fodelwyd ganddo'n amrywio o £23.5 miliwn gyda setliad optimistaidd gan Lywodraeth Cymru a chwyddiant cyflog o 4% i £42.7 miliwn gyda setliad realistig gan Lywodraeth Cymru a chwyddiant cyflog o 6%.

- 5 Mae'r bwloch cronnos o ran cyllid a ragwelir gan y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2023-24 a 2025-26 bellach £14.6 miliwn yn llai nag ym mis Mawrth 2021 (yn seiliedig ar setliad realistig a chwyddiant cyflog o 4%) – **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: mae'r bwloch cronnos o ran cyllid a ragamcanir gan y cyngor ar gyfer y tair blynedd rhwng 2023-24 a 2025-26 yn £27.2 miliwn – sydd £14.6 miliwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd y llynedd

Mae'r graff hwn yn dangos y bwloch cronnos o ran cyllid a adnabuwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2022 ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2023-24 a 2025-26.



Ffynhonnell: Adroddiad ar gyllideb 2021-22 i'r Cabinet (Mawrth 2021), Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2027-28 i'r Cabinet (Hydref 2022)

- 6 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o waith ganddo i'w wneud i adnabod pwysau ar wasanaethau a galw uwch am wasanaethau sy'n debygol o gynyddu ei fwch rhagamcanol ymhellach. Mae wedi adnabod rhai meysydd i'w hystyried ar gyfer cau'r bwllch rhagamcanol a fydd yn cymryd amser i ddwyn arbedion ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen adnabod opsiynau pellach rhag ofn na fydd setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn ddigon i gau'r bwllch yng nghyllideb 2023-24. Hefyd, nid yw'r pwysau o £4 miliwn a amcangyfrifwyd gan y Cyngor o ganlyniad i newid i ddarparu gwasanaethau hamdden yn fewnol wedi cael eu cynnwys yn ei dybiaethau er bod y Cyngor yn bwriadu adnabod opsiynau i liniaru hyn fel rhan o ddatblygu cynllun busnes ei wasanaethau hamdden.

Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

- 7 Bu gan y Cyngor yn hanesyddol lefel iach o gronfeydd wrth gefn ac ni fu ganddo unrhyw hanes o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau ar y gyllideb refeniw. Er ei fod wedi cyllidebu i ddefnyddio £1.65 miliwn o gronfeydd cyffredinol i fantoli ei gyllideb refeniw yn 2020-21 a £3.1 miliwn yn 2021-22, o ganlyniad i danwariannau ar ei gyllideb refeniw net a chyllid ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â Covid gan Lywodraeth Cymru fe gynyddodd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy £25.7 miliwn ymhellach i £104.8 miliwn erbyn 31 Mawrth 2022.
- 8 Cafodd cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022-23 ei mantoli heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ond roedd yn disgwyl y byddai cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi £13.8 miliwn yn llai. Ers hynny mae'r Cyngor wedi adnabod pwysau ychwanegol o ran cyflog a chwyddiant y mae'n bwriadu eu cyllido o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ac mae'n rhagfynegi y bydd ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n lleihau i £77.1 miliwn erbyn 31 Mawrth 2023.

Arddangosyn 2: cost net gwasanaethau o'i chymharu â swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2021-22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau ²	283.3	281.8	296.1	307.0	267.9	284.5
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau ³	51.3	59.5	61.4	59.1	79.1	104.8
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau ⁴	18.1%	21.1%	20.7%	19.3%	26.3%	32.8%
Cymharu â chynghorau eraill Cymru	10 ^{fed}	8 ^{fed}	9 ^{fed}	10 ^{fed}	10 ^{fed}	Amh.

Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon blynyddol

Cyflawni arbedion

- 9 Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion wedi'u cynllunio. Yn 2020-21 fe wnaeth y

² Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

³ Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

⁴ Cyfrifiad Archwilio Cymru.

Cyngor fantoli'r bwlch o ran cyllid wedi'i gyllidebu trwy arbedion wedi'u cynllunio o £1.97 miliwn. Yn 2021-22, pennwyd targed o £135,000 ar gyfer hyn gan bod ymateb i bandemig COVID wedi lleihau'r cyfle a oedd gan y Cyngor ar gyfer newidiadau i wasanaethau.

- 10 Mae'r Cyngor yn parhau i dynnu arbedion dynodedig unigol o'i gyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn a gaiff eu monitro trwy ei broses ar gyfer monitro'r gyllideb. Oni bai yr amlygir amrywiannau sylweddol yn y gyllideb, mae'r Cyngor yn tybio bod arbedion yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflawni. Mae sefyllfa alldro'r Cyngor ar gyfer 2020-21 a 2021-22 yn cadarnhau ei fod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio.
- 11 Cafodd cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2022-23 ei mantoli heb yr angen am arbedion wedi'u cynllunio. Mewn ymateb i bwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor yn adolygu ei weithgareddau a'i gyllidebau, ac yn bwrw ymlaen â champau gweithredu i liniaru pwysau o ran costau ac incwm a achoswyd gan Covid. Roedd cynllun adfer y Cyngor – Adfer, Ailosod ac Adnewyddu (a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022) yn nodi nifer o fentrau i leihau ei ofyniad o ran ei gyllideb refeniw net gyda chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ariannu ei fentrau buddsoddi i arbed a buddsoddi i ennill. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwaith pellach i adnabod mesurau effeithlonrwydd fel rhan o waith sydd ar y gweill i ddatblygu ei CATC ar gyfer y cyfnod rhwng 2023-24 a 2027-28.

Perfformiad yn erbyn y gyllideb

- 12 Fe wnaethom nodi mewn adroddiad blaenorol ym mis Medi 2021 ([Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol](#)) bod gan y Cyngor hanes da o reolaeth ariannol a'i fod yn gyson wedi bod yn darparu ei wasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt, gan drosglwyddo gwargedau bychain i'w gronfa gyffredinol.
- 13 Yn 2021-22, gan ei fod wedi cael cyllid ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â Covid gan Lywodraeth Cymru ni fu angen i'r Cyngor ddefnyddio £3.1 miliwn o gronfeydd cyffredinol fel a fwriadwyd ac fe alluogodd hynny'r Cyngor i gyflawni cynnydd o £25.7 miliwn yn ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Er bod y Cyngor wedi gorwario mewn rhai gwasanaethau, mae wedi gwrthbwysu'r rhain â thanwariannau mewn gwasanaethau eraill. Mae prif achosion yr amrywiannau hyn yn dal i fod yn gysylltiedig â Covid ac oherwydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru mae'r sefyllfa sylfaenol yn dal i fod yn aneglur mewn rhai meysydd.

- 14 Ar gyfer 2022-23, mae adroddiad monitro cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer mis 6 yn rhagweld gorwariant o £2.7 miliwn ar ôl trosglwyddiadau o £4.0 miliwn o gronfeydd wrth gefn. Mae'r prif orwariant yn ymwneud â chodiadau cyflog y rhagfynegir y byddant £9.7 miliwn yn uwch nag y cyllidebwyd ar ei gyfer. Bydd hyn yn cael ei gyllido'n rhannol trwy ailbwrpasu cyllidebau canolog a danwariwyd ond mae pwysau eraill o ran costau ac ar wasanaethau wedi cael eu hadnabod hefyd.

Pwysau ar Gyllidebau yn y Dyfodol

- 15 Bydd angen i gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor ddibynnu ar ystod o dybiaethau, a phan fo hynny'n cael ei gyfuno â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd y gyllideb yn y dyfodol yn dal i fod yn gryn her i gynghorau.

Yn gywir

Archwilio Cymru